

AMSER I SIARAD

# Gwranda arna i - Gwneud ffôn smalio

Gwnewch ffôn smalio a'i ddefnyddio i sgwrsio â'ch gilydd.

## Byddwch angen:

- Dau gwpan plastig neu bapur
- Darn o linyn
- Siswrn (neu wrthrych bychan miniog)
- Dau glip papur (dewisol)

## Dull:

- Gan ddefnyddio'r siswrn (neu'r gwrthrych miniog), gwnewch dwll yng ngwaelod y cwpanau plastig
- Torrwch y llinyn i'r hyd y mae arnoch ei eisiau
- Gwthiwch un pen i'r llinyn drwy'r twll yng ngwaelod y cwpan fel bod pen y

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# AMSER I SIARAD - Gwranda arna i - Gwneud ffôn smalio

llinyn y tu mewn i’r cwpan
- Clymwch gwlwm ar ddiwedd y llinyn fel na fydd yn dod allan o’r cwpan
- Gallwch ei glymu â chlip papur ar y pwynt hwn er mwyn sicrhau’i fod yn aros i mewn
- Ailadroddwch y broses hon gyda’r cwpan arall
- Mae eich ffôn smalio yn barod i’w ddefnyddio
- Pawb i gymryd cwpan
- Cerddwch oddi wrth eich gilydd tan y bydd y llinyn yn dynn, ond gofalwch beidio rhwygo’r llinyn o’r cwpan
- Mae un person yn siarad i mewn i’w cwpan tra mae’r llall yn dal eu cwpan at eu clust
- Bydd y tonnau sain yn teithio ar hyd y llinyn tynn

## Pam ddim?
- Amrywiwch hyd y llinyn er mwyn gweld sut mae hyn yn newid y canlyniadau?

## Manteision y gweithgaredd hwn:
- Mae chwarae gyda’ch plentyn yn cryfhau’r cysylltiad rhyngoch
- Bydd y gweithgaredd hwn yn annog eich plentyn i sgwrsio ac i wrando’n ofalus
- Bydd hefyd yn dysgu’ch plentyn am bwysigrwydd cymryd tro

!

**RHYBUDD:**
Mae angen goruchwyliaeth ofalus wrth ddefnyddio siswrn a llinyn!